

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid 2016 – 2031

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni
(Cymru) 2004

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)
(Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2015)

DATGANIAD MABWYSIADU

29 Ionawr 2020



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Miss J Jones

Prif Swyddog Cynllunio a Gwasanaethau Cymdogaeth |
Chief Officer Planning and Neighbourhood Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
Merthyr Tydfil County Borough Council

Uned 5 | Unit 5

Parc Busnes Triongl | Triangle Business Park

Pentre-bach

Merthyr Tudful | Merthyr Tydfil

CF48 4TQ

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Yn unol â gofynion Rheoliad 25 (2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi "Datganiad Mabwysiadu" ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu. At hynny ac yn unol â gofynion Rheoliad 16 o Reoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, rhaid i'r Awdurdod hefyd gyhoeddi "Datganiad Ôl-fabwysiadu".
- 1.2 Cynhyrchwyd y ddogfen hon er mwyn bodloni gofynion y ddau reoliad. Mae Rhan 1 y Datganiad yn ymdrin â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae Rhan 2 yn cyflawni gofynion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

2. Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

- 2.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Amnewid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2016-2031 ei fabwysiadu a'i wneud yn weithredol ar 29 Ionawr 2020. Mae'n disodli'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer 2006-2021.
- 2.2 Y CDLI Amnewid yw'r Cynllun Datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (ac eithrio'r manau hynny sy'n gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a bydd yn sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch cynllunio defnydd tir yr ardal.
- 2.3 Mae copïau o'r CDLI Amnewid Mabwysiedig, Adroddiad Rhwymol yr Arolygydd, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (AC) Terfynol, a'r Datganiad Mabwysiadu hwn, ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn:
- Canolfan Ddinesig CBSMT, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN;
 - CBSMT, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentre-bach, CF48 4TQ;
 - Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8AF;
 - Hyb Llyfrgell Rhydycar, Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, CF48 1UT;
 - Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris, Merthyr Tudful, CF46 5ET;
 - Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HS;
 - Llyfrgell Gymunedol Aber-fan, Heol Pantglas, Aber-fan, CF48 4QE.

- 2.4 Gallwch weld y CDLI Amnewid Mabwysiedig a'r dogfennau cysylltiedig uchod ar wefan y Cyngor hefyd, sef: www.merthyr.gov.uk/AmnewidCDLI
- 2.5 Yn unol ag adran 113 o Ddeddf 2004, caiff unrhyw un sy'n anfodlon ynghylch y CDLI Amnewid ac eisiau cwestiynu ei ddilysrwydd, gyflwyno cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad a nodwyd ar yr Hysbysiad Mabwysiadu ac ar y seiliau canlynol: nid yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, ac nid yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno nac unrhyw reoliad a wnaed oddi tani mewn perthynas â mabwysiadu'r CDLI.
- 3. RHAN 2: Datganiad Ôl-fabwysiadu - Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**
- 3.1 Mae CDLIau cyfoes yn un o ofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae adran 69 (6) o Ddeddf 2004, fel y'i diwygiwyd, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfarnu cynaliadwyedd y CDLI trwy Arfarniad Cynaliadwyedd [AC]. Mae hon yn broses systematig sydd wedi'i chynllunio i arfarnu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun Datblygu er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- 3.2 Rhaid i'r Cyngor hefyd gydymffurfio â Chyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol 2001/42/CE (Y Gymuned Ewropeaidd, 2001), sy'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o gynlluniau a rhaglenni sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn ymgorffori'r gofyniad hwn yng nghyfraith Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi "Adroddiad Amgylcheddol" sy'n ystyried yr effeithiau sylweddol tebygol.
- 3.3 Mae canllawiau'r Llywodraeth yn cynghori y dylid cynnal AC ac AAS o'r Cynlluniau Datblygu gyda'i gilydd fel rhan o broses ailadroddol, ac y dylai'r Cynlluniau Datblygu fod yn ddarostyngedig i AC gan ymgorffori gofynion AAS trwy un broses arfarnu. Felly, dylid cymryd bod y term "AC" y cyfeirir ato trwy gydol y datganiad hwn, yn cynnwys gofynion yr AAS.
- 3.4 Mae'r adran hon o'r Datganiad Mabwysiadu yn crynhoi'r modd y mae canfyddiadau'r broses integredig AC/AAS wedi dylanwadu ar ddatblygiad y CDLI, a'r modd y rhoddwyd sylw i ystyriaethau amgylcheddol a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hefyd yn amlinellu pam y symudwyd ymlaen â'r CDLI Adnau Amnewid yng ngoleuni

dewisiadau rhesymol eraill ac yn tynnu sylw at y mesurau sydd wedi'u datblygu i olrhain effeithiau'r Cynllun.

- 3.5 Yn unol â Rheoliad AAS 16 (4), mae'r Datganiad hwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol:
- Y modd y cafodd yr ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio i'r cynllun.
 - Yr ystyriaeth a roddwyd i'r Adroddiad AC/AAS, h.y. unrhyw newidiadau a wnaed i'r CDLI o ganlyniad i'r broses AC.
 - Yr ystyriaeth a roddwyd i ymatebion yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r broses AC/AAS.
 - Y modd y cafodd canlyniadau unrhyw ymgynghoriadau trawsffiniol eu hystyried.
 - Y rhesymau dros ddewis y cynllun mabwysiedig, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill yr edrychwyd arnynt.
 - Goblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol a argymhellir yn Adroddiad yr Arolygydd.
 - Y mesurau sydd i'w rhoi ar waith i fonitro'r effeithiau amgylcheddol sylweddol a ddaw yn sgil gweithredu'r Cynllun.
- 3.6 Ymdrinnir â phob un o'r gofynion uchod yn eu tro isod. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, yn hytrach na dyblygu'r deunydd sy'n ymdrin â'r broses AC, ceir croesgyfeiriadau priodol i'r dogfennau perthnasol o fewn y Datganiad hwn.
- 3.7 Dylid nodi bod y CDLI Amnewid hefyd yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r broses AC/AAS. Bu'r ARhC yn asesu effeithiau'r CDLI ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill ar "safleoedd Ewropeaidd" a ddynodwyd felly oherwydd eu statws ecolegol. Roedd yr asesiad hwn yn cyd-fynd â'r CDLI Adnau Amnewid ac adroddwyd arno ar wahân.

3.8 Y modd y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio i'r Cynllun

- 3.8.1 Mae'r CDLI Amnewid wedi bod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) er mwyn ystyried effaith bosibl y Cynllun ar yr amgylchedd a gwella'i berfformiad amgylcheddol.
- 3.8.2 Ymgwymerwyd â'r prosesau AC ac AAS yn gyfochrog â'i gilydd a'u cyfuno o fewn Adroddiad yr AC. Mae'r broses wedi bod yn rhan annatod o baratoi'r CDLI Amnewid gan sicrhau ei fod yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy ymgorffori amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- 3.8.3 Mae'r broses AC wedi parhau trwy gydol y paratodau ar gyfer y Cynllun, ac wedi cynnwys sawl cam ac adroddiad, ac roedd yna broses adborth ar waith drwy'r adeg rhwng llunio'r Cynllun a chynnal yr Asesiad Cynaliadwyedd. Wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen trwy'r camau paratoi, aseswyd y polisiau a'r cynigion yn erbyn amcanion yr AC a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr asesiadau dan sylw. Trwy hynny, roedd modd integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'r CDLI Amnewid a'r broses o lunio cynllun.
- 3.8.4 Mae Tabl 1 isod yn dangos y camau a weithredwyd i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, a'r asesiadau a gynhaliwyd yn ôl yr AC.

Cam Gweithredu'r CDLI Amnewid	Adroddiadau AC (gan gynnwys cyfeiriadau at ddogfennau)	Amserlen yr Ymgynghoriad
Diweddaru Sylfaen Tystiolaeth	Adroddiad ar Gwmpasu Gwaelodlin yr Arfarniad Cynaliadwyedd, Ionawr 2017 (SD10)	Cyfranogiad Cyn-Adnau/Galwad am Safleoedd Ymgeisiol Medi - Rhagfyr 2016
Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir	Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd, Mehefin 2017 (SD09) Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd - Crynodeb Annhechnegol, Mehefin 2017 (ED013)	Ymgynghoriad Cyn-Adnau Cyhoeddus Gorffennaf – Hydref 2017
Paratoi'r Cynllun Adnau	Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adnau, Mehefin 2018 (SD06) Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adnau - Crynodeb Annhechnegol, Mehefin 2018 (SD07)	Ymgynghoriad y Cynllun Adnau Gorffennaf – Medi 2018

DATGANIAD MABWYSIADU

Cyflwyniad	Adendwm i Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adnau, Rhagfyr 2018 (SD08)	Ymgynghoriad â Ffocws ar Newidiadau Ionawr – Mawrth 2019
Archwiliad	Adendwm Pellach i Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adnau, Medi 2019 (ED057)	Materion yn Codi Newidiadau Ymgynghoriad Medi – Hydref 2019
Arolygwyr a Mabwysiadu'r Adroddiad	Yr Adroddiad Terfynol ar Arfarnu Cynaliadwyedd, Ionawr 2020	Mabwysiadu'r Cynllun 29 Ionawr 2020

3.8.5 Cynhaliwyd Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ac Aseiad Priodol (AP) hefyd, a daethant i'r casgliad na fydd y CDLI yn effeithio'n sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd ar ei ben ei hun nac o'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill.

3.9 Y modd y rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Amgylcheddol (gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i'r CDLI o ganlyniad i'r broses AC)

3.9.1 Casglu gwybodaeth a diweddarau'r sylfaen dystiolaeth

3.9.1.1 Roedd camau cychwynnol yr AC yn cynnwys paratoi "Adroddiad Cwmpasu" yn ei gylch. Pwrpas hyn oedd adolygu'r wybodaeth sylfaenol berthnasol a nodi materion cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol (Tabl 4.1 o'r ddogfen SD11). Llywiodd hyn y Materion Allweddol a nodwyd yn Ffigur 1 o'r CDLI Amnewid.

3.9.1.2 Mae Adroddiad Cwmpasu'r AC hefyd yn nodi bod y CDLI Amnewid wedi'i asesu yn erbyn 18 Amcan Cynaliadwyedd (Tabl 5.2 o'r ddogfen SD11). Cafodd Adroddiad Cwmpasu'r AC ei ddylanwadu gan Weithgorau a Grwpiau Llywio'r CDLI ynghyd â Gweithdai'r Rhanddeiliaid ar Lesiant (a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016). Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cwmpasu terfynol ym mis Ionawr 2017 (dogfen SD11) yn dilyn ymgynghoriad â chyrrff statudol yr AAS.

3.9.2 Y Cyfnodau Cyn-Adnau

3.9.2.1 Yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol (ACC) (dogfen SD09), aseswyd 3 Strategaeth Ofodol a 3 Opsiwn Twf wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI Amnewid. Mae'r ACC yn nodi'r effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol sy'n debyg o ddod yn sgil yr opsiynau twf a strategaeth, a dyna sydd wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir. Ar y pwynt hwn hefyd, fe aseswyd amcanion y CDLI a'r polisiau allweddol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a Ffefrir, a chafwyd asesiad cynnar o'r safleoedd a gynhwysir ar Gofrestr y Safleoedd Ymgeisiol (Adran 8 o'r ACC). Gellir gweld asesiadau llawn o'r Strategaeth Twf, y Strategaeth Ofodol a Pholisiau'r Strategaeth a Ffefrir yn Atodiadau 4-6 o'r Adroddiad ACC.

3.9.3 Y Cynllun Adnau

3.9.3.1 Yn Adroddiad AC y Cynllun Adnau (dogfen SD06), nodwyd yr effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol oedd yn debyg o ddod yn sgil drafft llawn y CDLI Adnau Amnewid, gan gynnwys goblygiadau cynaliadwyedd tebygol y dyraniadau safle. Aseswyd pob safle yn erbyn yr amcanion cynaliadwyedd a nodir yn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Safleoedd (Atodiad 5 o'r ddogfen SD06). Mae Ffigur 7.3 a pharagraffau 7.38 - 7.55 o Adroddiad AC y Cynllun Adnau yn crynhoi canlyniadau'r broses arfarnu ar gyfer y safleoedd a ddyrannwyd. Mae Atodiad 6 yn dangos Arfarniadau Cynaliadwyedd manwl o'r safleoedd.

- 3.9.3.2 Daeth Adroddiad yr AC i'r casgliad fod gweledigaeth, amcanion strategaeth a pholisïau manwl y Cynllun Adnau at ei gilydd yn darparu sylfaen gynaliadwy i'r CDLI Adnau Amnewid (gweler Paragraffau 9.1 - 9.9 o ddogfen SD06). Mae Ffigur 7.2 a pharagraffau 7.28 i 7.35 o AC y Cynllun Adnau yn crynhoi canlyniadau'r arfarniad o bolisïau manwl y Cynllun. Mae Ffigur 9.1 hefyd yn darparu crynodeb o asesiadau polisi yn ôl pynciau AAS.
- 3.9.3.3 Bu AC y Cynllun Adnau hefyd yn ystyried cyfleoedd i liniaru'r polisi ymhellach er mwyn gwella perfformiad cynaliadwyedd cyffredinol y Cynllun. Crynhoir hyn yn yr asesiadau polisi manwl a ddangosir yn Atodiad 4 o Adroddiad AC y Cynllun Adnau (er enghraifft, gweler yr asesiadau ar gyfer Polisiâu SW11 a CW1).
- 3.9.4 Cyfnod y Newidiadau â Ffocws
- 3.9.4.1 Roedd Adendwm i Adroddiad yr AC, Rhagfyr 2018 (dogfen SD08) yn sgrinio i weld a oedd y Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau yn newid yr "effeithiau sylweddol tebygol" a nodwyd yn Adroddiad yr AC, ac a oedd y newidiadau a gynigiwyd yn debygol o arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol newydd (dangosir y sgrinio yn Nhabl 3.1 o'r ddogfen SD08). Arweiniodd hyn at 8 asesiad newydd, gan gynnwys dyraniad safle ychwanegol yng Nghlwydyfagwr, Heol Abertawe; asesiad wedi'i ddiweddarau ar gyfer y dyraniad safle yng Nghwmfelin, Bedlinog a gynigir yn y Cynllun Adnau; ac asesiadau a ddiweddarwyd ar gyfer polisiâu diwygiedig (yn benodol ar gyfer polisiâu SW10 Diogelu a Gwella Mannau Agored, SW11 Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd, EnW2 Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol, EnW4 Gwarchod yr Amgylchedd, EcW8 Ynni Adnewyddadwy ac EcW11 Datblygu Mwynau). Ar ôl ystyried yr arfarniadau ar eu ffurf ddiweddaraf, ni nodwyd unrhyw oblygiadau o ran AC cyffredinol y Cynllun Adnau.
- 3.9.5 Ymgynghoriad ar Newidiadau i'r Materion sy'n Codi
- 3.9.5.1 Gwnaeth yr Adendwm Pellach i Adroddiad yr AC, Medi 2019 (dogfen ED057) ystyried y newidiadau i'r CDLI Amnewid a gynigiwyd trwy gydol yr Archwiliad, sef y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi (MACs). Nododd y sgrinio yn Nhabl 3.1 nad oedd angen ailasesu'r polisiâu oherwydd graddfa a natur y newidiadau a gynigir. Fodd bynnag, cynhaliwyd 4 asesiad manwl newydd ar gyfer y dyraniadau tai newydd a gynigir (ac fe'u gwelir yn Nhabl 4.2). Sgoriodd y dyraniadau safle newydd yn dda yn erbyn y Fframwaith AC ac roedd eu heffeithiau'n debyg i ddyraniadau preswyl cyffelyb eraill. Ar ôl ystyried Arfarniadau Cynaliadwyedd y safleoedd ychwanegol hyn, ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau pellach o ran AC cyffredinol y Cynllun Adnau.

3.10 Y modd y mae ymatebion i'r ymgynghoriad ar y broses AC/AAS wedi'u cymryd i ystyriaeth

Y Cyfnodau Cyn-Adnau

3.10.1 Roedd yr Adroddiad Cwmpasu Sylfaenol (dogfen SD10) yn destun ymgynghoriad â chyrrff statudol yn y maes amgylcheddol rhwng 21 Rhagfyr 2016 a 25 Ionawr 2017. Dangosir sylwadau'r ymatebwyr ar dudalennau 74-76 yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (AYC) dyddiedig Mehefin 2018 (dogfen SD15). Gwnaed newidiadau i'r Adroddiad Cwmpasu Sylfaenol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion statudol.

3.10.2 Ymgynghorwyd ynghylch y Strategaeth a Ffeirir ac Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol (ACC) (dogfen SD09) rhwng 14 Gorffennaf 2017 a 6 Hydref 2017. Dangosir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r ACC ac ymateb y Cyngor ar dudalennau 77 - 82 o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (AYC).

Y Cyfnod Adnau

3.10.3 Ymgynghorwyd ynghylch y Cynllun Adnau a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (dogfen SD06) rhwng 30 Gorffennaf 2018 a 10 Medi 2018. Dangosir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ar dudalen 145 o Adroddiad Ymgynghori'r Cynllun Adnau dyddiedig Rhagfyr 2018 (dogfen SD14). Cafwyd sylwadau ynghylch yr asesiad a wnaed o'r safle preswyl a ddyrannwyd yng Nghwmfelin, Bedlinog, a'r effaith y câi strategaeth dwf y Cynllun ar gyflenwi mwynau. Mae ymateb y Cyngor i'r rhain i'w weld yn Adran 4 (gweler tudalennau 20, 32 a 66) ac Adran 5 (tudalen 145) o Adroddiad Ymgynghori'r Cynllun Adnau.

Cyfnod y Cyflwyniad a'r Ffocws ar Newidiadau

3.10.4 Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch yr Atodlen Ffocws ar Newidiadau ac Adendwm yr Adroddiad AC (dogfen SD11) rhwng 21 Ionawr 2019 a 4 Mawrth 2019. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law mewn perthynas â'r Adendwm i Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adnau.

Ymgynghori ynghylch y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi

3.10.5 Ymgynghorwyd ynghylch yr Atodlen Newidiadau i'r Materion sy'n Codi ac Adendwm Pellach i'r Adroddiad AC dyddiedig Medi 2019 (dogfen ED57) rhwng 9 Medi 2019 a 21 Hydref 2019. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law mewn perthynas â'r Adendwm Pellach i'r Adroddiad AC.

3.11 Y modd y cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad trawsffiniol eu hystyried

3.11.1 Mae'r broses AC wedi ystyried yr effeithiau trawsffiniol posibl, gan gynnwys yr effeithiau trawsffiniol posibl ar y Gymraeg. Daeth sylwadau i law yn gofyn am fanylion pellach ac arweiniodd hynny at ddiweddaru'r Asesiad o'r Gymraeg yn yr Adendwm Pellach i'r Adroddiad AC (dogfen ED57). Roedd yr asesiad a ddiweddarwyd yn cynnwys ystyriaeth fanwl bellach ar y cynnydd yn y galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg dros gyfnod y Cynllun, gan gynnwys y galw am Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun a leolwyd yn y Fwrdeistref Sirol gyfagos sef Rhondda Cynon Taf. Nododd hyn fod angen ehangu Ysgol Gyfun Rhydywaun i gwrdd ag anghenion arfaethedig y dyfodol. Ychwanegwyd yr angen am y seilwaith hwn at Atodlen Seilwaith (Atodiad 5) y CDLI Amnewid. Ni chodwyd unrhyw faterion trawsffiniol eraill trwy'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd.

3.11.2 Fe wnaeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Asesiad Priodol) y CDLI Amnewid roi ystyriaeth i effeithiau'r Cynllun ar y safleoedd cadwraeth natur hynny sy'n gorwedd y tu allan i ffin y CDLI ac o Bwys Ewropeaidd. Daethpwyd i'r casgliad, gan fod mesurau lliniaru wedi'u hymgorffori yn y Cynllun, na fyddai gweithredu'r CDLI yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw Safle o Bwys Ewropeaidd naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

3.12 Y rhesymau dros ddewis y Cynllun yn y ffurf a fabwysiadwyd yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill yr edrychwyd arnynt

3.12.1 Wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI Amnewid, datblygodd y Cyngor 3 Opsiwn Strategaeth Ofodol a gafodd eu hystyried fel lleoliadau amgen realistig ar gyfer datblygiadau pellach yn y Fwrdeistref Sirol. Cafodd y Strategaeth ei llywio hefyd gan 8 senario twf posibl¹, gyda 3 ohonynt ar y rhestr fer i'w hystyried mewn manylder pellach. Mae'r arfarniadau llawn ar gyfer opsiynau'r strategaeth wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ACC dyddiedig Mehefin 2017 (dogfen SD09). Dyma'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer y strategaeth:

¹ Gweler y Papur Cefndir ar Boblogaeth a Thai, Mehefin 2017 (dogfen SD32) i gael y manylion llawn.

3.12.2 Opsiynau Twf

- Opsiwn Twf Uchel: parhad y Strategaeth Twf Uchel a fabwysiadwyd eisoes gan y CDLI presennol (253 annedd y flwyddyn). Crynhoir y materion sy'n codi o arfarniad yr opsiwn hwn ym mharagraff 7.10 y ddogfen SD09.
- Opsiwn Twf Canol: twf poblogaeth gynaliadwy o 8% (150 annedd y flwyddyn). Crynhoir y materion sy'n codi o arfarniad yr opsiwn hwn ym mharagraff 7.19 y ddogfen SD09.
- Opsiwn Twf Isel: Prif Ragamcaniad - cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth (22 annedd y flwyddyn). Crynhoir y materion sy'n codi o arfarniad yr opsiwn hwn ym mharagraff 7.14 y ddogfen SD09.

3.12.3 Dewiswyd un o'r opsiynau uchod ar ôl iddynt gael eu hasesu yn erbyn Fframwaith Strategol yr Arfarniad Cynaliadwyedd (gweler adrannau 7.20 - 7.24 o'r ddogfen SD09). Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyflawni'r "twf uchel", ystyriwyd mai'r opsiwn "twf canol" oedd yr un mwyaf tebygol o gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Amnewid am ei fod yn cynnig twf poblogaeth cynaliadwy ac yn cynnwys cyfran uwch o effeithiau cadarnhaol a chyfleoedd lliniaru. Hefyd, fe gyflwynwyd dadansoddiad o'r senarios twf i Weithgorau a Grwpiau Llywio'r CDLI rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 ac roedd hynny o gymorth i sicrhau consensws eang wrth ddewis yr opsiwn a ffefrir.

3.12.4 Opsiynau Gofodol Strategol

- Estyniad trefol ym Merthyr Tudful (SoDdGA Cwm Glo a Glyndyrys) a safleoedd bach eraill: Byddai rhan fwyaf o'r datblygiadau tai yn cael eu lleoli mewn estyniad trefol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sef Cwm Glo a Glyndyrys, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ym meysydd hamdden, manwerthu a thwristiaeth. Ystyriwyd bod datblygu SoDdGA Cwmglo a Glyndyrys fel rhan allweddol o strategaeth y CDLI yn gwbl amhriodol am y byddai, yn ei hanfod, yn cyfyngu ar amcanion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, priddoedd, tirwedd a threftadaeth, ar wahân i'r ffaith fod yna opsiynau gofodol addas eraill ar gael.
- Ardal Adfywio Strategol Hoover a safleoedd bach eraill: Byddai cyfran sylweddol o'r datblygiadau tai yn cael eu lleoli yn Ardal Adfywio Strategol Hoover (HSRA). Byddai hynny'n annog cyflogaeth ac yn ffurfio rhan allweddol o'r cynigion ar gyfer Metro De Cymru yn ogystal â'r

safleoedd llai eraill a ddyrannwyd yn y Brif Ardal Dwf a'r Ardaloedd Twf Eraill. Cafodd yr opsiwn hwn effeithiau cadarnhaol sylweddol ar amcanion yn ymwneud â thwf poblogaeth, datblygiad economaidd, trafndiaeth a seilwaith, ac mae hefyd yn sgorio'n gadarnhaol o ran tai, cymunedau ac iechyd pobl.

- o Gwasgaru safleoedd bach ar draws y Fwrdeistref Sirol: Byddai Strategaeth Ofodol Fabwysiedig y CDLI presennol yn parhau gan leoli tai ar nifer o safleoedd ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn y brif ardal drefol, sef Merthyr Tudful. Sgoriodd yr opsiwn hwn yn dda hefyd o ran amcanion yn ymwneud â thwf poblogaeth, datblygiad economaidd, trafndiaeth a seilwaith. Byddai'n debygol o gyflawni lefel gynaliadwy o dwf mewn lleoliadau sydd hefyd i raddau helaeth yn gynaliadwy, ond nid oedd yr opsiwn hwn yn cynnig yr un cyfleoedd ag opsiwn Ardal Adfywio Strategol Hoover.
- 3.12.5 Dangosir yr Arfarniadau o Opsiynau'r Strategaeth Ofodol yn Atodiad 5 yr Adroddiad ACC (dogfen SD09) ac fe'u crynhoir ym mharagraffau 7.26 i 7.36. Ystyriwyd y byddai'r Opsiwn HSRA yn manteisio ar gynigion Metro De Cymru yn fwy nag unrhyw opsiwn arall oherwydd ei leoliad ger llwybrau strategol y seilwaith trafndiaeth gyhoeddus sy'n bodoli eisoes, ac y byddai'n cynorthwyo i integreiddio haneri gogleddol a deheuol y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r datblygiad hwn hefyd yn adfywio hen safle diwydiannol sydd wedi bod bron yn wag am 10 mlynedd a'i ryddhau ar gyfer cyfleusterau tai, cyflogaeth a hamdden. Tybiwyd bod y ffactorau hyn yn golygu mai Opsiwn Gofodol HSRA oedd yr un a ffefrir ar gyfer y CDLI Amnewid i gyflawni twf poblogaeth cynaliadwy ac nid y strategaethau eraill.

3.13 Asesu a Dethol Safleoedd

- 3.13.1 Cyflwynwyd y cais gyntaf i enwebu safleoedd am ddyraniad posibl yn y CDLI Amnewid, rhwng 8 Medi 2016 a 2 Rhagfyr 2016. Roedd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cynnwys 98 o safleoedd yr ymgynghorwyd â hwy'n gyhoeddus, ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir gan y CDLI Amnewid. Hyrwyddwyd 5 safle arall ar y pwynt hwnnw ac roedd pob un o'r 103 safle ymgeisiol yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ar lefel safle, fel y dangosir yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol dyddiedig Hydref 2017 (dogfen SD18).
- 3.13.2 Cafodd yr holl safleoedd ymgeisiol ynghyd â'r opsiynau safle eraill a ystyriwyd, asesiadau safle manwl gan y Cyngor wrth baratoi'r CDLI Adnau Amnewid ac fe'u manylir ym mhapur cefndir yr Asesiadau Safle (dogfen SD46). Mae'r papur hwn yn nodi'r Asesiadau Safle manwl ar gyfer yr holl

opsiynau sy'n cydymffurfio â'r strategaeth, yn ogystal â'r holl ACau a gyflawnwyd o'r safleoedd dyranedig. Mae canfyddiadau'r ACau wedi'u cynnwys yn Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y Cynllun Adhau (dogfen SD06) yn Ffigur 7.3 a pharagraffau 7.36 i 7.55.

3.13.3 Roedd y 5 safle arall a ychwanegwyd yn y camau Newid â Ffocws a Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, hefyd yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac Aseidiadau Safleoedd manwl. Manylir ar y rhain yn Adenda Adroddiad yr AC (sef dogfennau SD08 ac ED57). Ni nodwyd bod y newidiadau arfaethedig hyn wedi cael unrhyw effeithiau sylweddol ar AC cyffredinol y Cynllun.

3.14 Goblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol a argymhellir yn Adroddiad yr Arolygydd

3.14.1 O ran y Newidiadau a Argymhellir i'r Materion sy'n Codi, mae Adroddiad yr Arolygydd ym mharagraff 1.4 yn nodi, "*Argymhellir newidiadau yn yr adroddiad hwn dim ond pan mae angen diwygio'r Cynllun yng ngoleuni gofynion cyfreithiol neu i'w wneud yn gadarn. Rwy'n fodlon nad yw'r newidiadau a argymhellir yn newid hanfod cyffredinol y Cynllun a gyflwynwyd. Nid ydynt ychwaith yn tanseilio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r prosesau cyfranogol a gynhaliwyd.*"

3.14.2 Ymhellach, daeth adroddiad yr Arolygydd ym mharagraff 10.8 i'r casgliad bod "*polisiâu'r Cynllun yn darparu sail gynhwysfawr a chadarn ar gyfer rheoli datblygu yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y Cynllun. Nid oes angen unrhyw bolisiâu eraill i gyflawni amcanion y Cynllun na lliniaru'r effeithiau posibl a amlygwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd neu'r Aseiad Priodol.*" O ganlyniad, ni argymhellwyd unrhyw newidiadau pellach i'r CDLI Amnewid yn Adroddiad yr Arolygydd.

3.15 Y mesurau sydd i'w rhoi ar waith i fonitro'r effeithiau amgylcheddol sylweddol a ddaw yn sgil gweithredu'r Cynllun

3.15.1 Mae Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod y Cyngor yn paratoui Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB). Mae angen hyn i fonitro eitemau penodol, yn ogystal â chanfod ble a pham nad yw polisiâu'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd.

3.15.2 Mae Rheoliad 17 o Reoliadau AAS yn gofyn bod y Cyngor yn monitro effeithiau mwyaf arwyddocaol y Cynllun. Felly, mae monitro'r Cynllun a'i

effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ofyniad statudol a fydd yn cael ei wneud trwy'r broses AMB.

- 3.15.3 Y Fframwaith Monitro, fel y'i cyflwynir yn Adran 7 o'r CDLI Amnewid Mabwysiedig, yw'r sylfaen ar gyfer mesur perfformiad polisi. Mae'r dangosyddion monitro wedi'u categorio yn ôl Amcanion y CDLI ac yn croesgyfeirio'r Amcanion AC perthnasol.
- 3.15.4 Mae Adroddiad Terfynol yr AC dyddiedig Ionawr 2020 yn cynnwys Fframwaith Monitro AC ar wahân ac fe'i datblygwyd fel rhan o'r broses AC/AAS integredig. Mae hyn yn ymdrin ag agweddau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag amgylcheddol, ac yn cynnwys monitro targedau a dangosyddion yn erbyn pob Amcan AC.
- 3.15.5 Ymgymerir â dull integredig wrth fonitro gweithrediad y Cynllun a'i effeithiau amgylcheddol sylweddol, a gwneir hynny'n flynyddol trwy'r broses AMB. Bydd yr AMB cyntaf ar gyfer y CDLI Amnewid yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021.